

Nyrsys Ymgynghorol: Gofal Arbenigol i Gleifion

BRIFF POLISI



Cynnwys

Beth yw nyrs ymgynghorol?	3
A oes gan Gymru ddigon o nyrsys ymgynghorol?	9
Cymru gyfan	9
Fesul bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd	10
Fesul maes nyrsio	11
Beth ddylai Llywodraeth Cymru ei wneud?	14
Pwntiau Gweithredu	15

Cysylltwch â policy&publicaffairs.wales@rcn.org.uk am ragor o wybodaeth.



Ynglŷn â'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)

Y Coleg Nyrsio Brenhinol yw'r sefydliad proffesiynol ac undeb llafur mwyaf yn y byd ar gyfer nyrsio, gan gynrychioli dros 500,000 o nyrsys, bydwagedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth gofal iechyd a myfyrwyr nyrsio, gan gynnwys dros 29,500 o aelodau yng Nghymru. Mae aelodau'r RCN yn gweithio yn y sector annibynnol a'r GIG. Mae tua dwy ran o dair o'n haelodau wedi'u lleoli yn y gymuned. Mae RCN yn sefydliad ledled y DU, gyda Byrddau Cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae RCN yn cynrychioli nyrsys a gwasanaethau nyrsio, yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn ymarfer nyrsio ac yn llywio polisi iechyd a gofal.

Beth yw nyrs ymgynghorol?

Nyrs arbenigol yw nyrs ymgynghorol, sy'n pontio meysydd ymarfer clinigol, ymchwil, addysg, strategaeth ac arweinyddiaeth er mwyn gwella gofal cleifion.

Defnyddir y gair 'ymgynghorol' mewn meysydd amrywiol 'i gyfeirio at berson sy'n darparu cyngor proffesiynol neu arbenigol mewn maes gwyddonol neu fusnes penodol, un ai i sefydliad neu i unigolyn.¹ Yn achos nyrsys ymgynghorol, datblygir y cyngor arbenigol hwn trwy brofiad, ymchwil a datblygiad proffesiynol clinigol helaeth.

Ceir pum congflaen o ymarfer lefel ymgynghorol ar gyfer nyrsys ymgynghorol:

Ffigur 1 **Pum Congflaen Ymarfer Clinigol Ymgynghorol**



Ffynhonnell: Fframwaith Estynedig, Uwch ac Ymgynghorol GIG Cymru²

Oherwydd lled y profiad clinigol a gwybodaeth arbenigol y bydd nyrs ymgynghorol wedi eu caffael, mae nyrsys ymgynghorol yn gallu arfer lefel uchel o ymreolaeth broffesiynol a chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau er mwyn gwella 'ansawdd yn yr holl feysydd asesu, diagnosis, rheoli a gwerthuso, gan sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau ac ehangu cwrpas ei faes ymarfer.³ Mae'r lefel hon o ymreolaeth ac arbenigedd proffesiynol yn galluogi nyrsys ymgynghorol i herio darparwyr a gwasanaethau iechyd i wella gofal cleifion.⁴

¹ <https://aagic.gig.cymru/files/enhanced-advanced-and-consultant-framework/>

² Ffigur 1: <https://aagic.gig.cymru/files/enhanced-advanced-and-consultant-framework/>

³ <https://aagic.gig.cymru/files/enhanced-advanced-and-consultant-framework/>

⁴ Ibid.

Mae'r holl nyrsys sy'n ymarfer ar lefel uwch neu uwch na hynny yn gweithio ar draws y pedwar congflaen cyntaf. Mae'r pumed congflaen, strategaeth, yn unigryw i'r rhai sy'n ymarfer ar lefel ymgynghorol.⁵ Bydd faint o amser nyrs ymgynghorol sy'n mynd tuag at bob un o'r bum gongflaen yn amrywio yn ôl eu swydd ac anghenion y bwrdd neu'r ymddiriedolaeth iechyd. Fodd bynnag, mae ymarfer clinigol yn dal i fod yn rhan bwysig iawn o'u swydd.

Fel y dangosir yn Ffigur 1, nid yn unig y mae nyrsys ymgynghorol yn arwain ymchwil gyfredol, maent hefyd yn ei defnyddio yn eu hymarfer clinigol, gan sicrhau bod cleifion yn gweld bydd gwirioneddol yn eu bywydau o ganlyniad. Yn aml, mae gan nyrsys ymgynghorol broffiliau cenedlaethol-neu ryngwladol hyd yn oed-gan gyfrannu at brosiectau, ffrydiau gwaith a fforymau cenedlaethol. Mae hyn yn eu caniatáu i gynghori cyflogwyr a byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, a helpu i ddatblygu gwasanaethau a llwybrau i gleifion. Maent yn addysgu ac yn hyfforddi eraill, gan sicrhau gwybodaeth a sgiliau'r gweithlu yn y dyfodol, ac mae llawer naill ai'n gweithio ar y cyd â darparwyr addysg uwch neu mae ganddynt gyd-gontract cyflogaeth. Wrth ystyried ei rhaglen a gomisiynir o waith ymchwil i iechyd a gofal cymdeithasol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ystyried effaith y swydd nyrs ymgynghorol.

Ymchwil ac ymarfer yn cydweithio i wella canlyniadau cleifion

Yn ardal pob bwrdd iechyd yng Nghymru, mae tua 200 o blant a phobl ifanc yn debygol o fod angen cymorth trwy diwb bwydo. Fodd bynnag, gallai fformiwla a baratowyd yn fasnachol achosi i blant ddiodeff dolur rhydd difrifol, chwydu a cholli pwysau, ac o ganlyniad, gallai gyfyngu'n ddifrifol ar eu gallu i fywyd eu bywydau bob dydd. Mae rhai rhieni, felly, yn dewis rhoi deiet wedi'i hylifo i'w plant naill ai yn hytrach na fformiwla a baratowyd neu yn ychwanegol ato, gan arwain yn aml i'r plentyn ddiodeff llai o achosion o boen yn y bol ac ansawdd bywyd gwell.



Gweithiodd Sian Thomas fel Nyrs Ymgynghorol (Iechyd Plant) ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, lle'r oedd rhieni rhai o'r plant hyn wedi mynegi diddordeb mewn newid i ddefnyddio deiet wedi'i hylifo ar gyfer eu plant. Gan sylweddoli nad oedd digon o ymchwil ar gael am ddiogelwch yr opsiwn hwn, penderfynodd Sian gynnal astudiaeth Cymru gyfan 18 mis o hyd, a noddwyd gan BIP Aneurin Bevan.

Mynegodd pawb a gymerodd ran a dderbyniodd ddeiet wedi'i hylifo fuddion sylweddol gan gynnwys gwell goddefiant o'r bwyd, ag achosion o chwydu yn llawer is o'u cymharu â'r rhai ar fwyd masnachol. Nid oedd unrhyw gynnydd i gymhlethdodau o ran rhwystrau mewn tiwbiau neu gyfraddau haint a bu gostyngiad sylweddol i gyffredinrwydd problemau coluddyn.

⁵ <https://aagic.gig.cymru/files/enhanced-advanced-and-consultant-framework/>

Dywedodd rhieni hefyd y bu gwelliant i hwyliau ac ymddygiad y plant, eu bod wedi magu pwysau a bod ganddynt well oddefiant o feddyginiaeth — a arweiniodd at ostyngiad i dderbyniadau ysbyty.

Aeth Sian ymlaen wedyn i ddefnyddio'r wybodaeth yr oedd wedi ei dysgu o'i gwaith ymchwil a'i rhoi ar waith i helpu ei chleifion ei hun. Yn ei swydd fel nyrs ymgynghorol, roedd Sian yn gallu cael effaith gadarnhaol bendant ar fywydau ei chleifion ei hun felly. Arweiniodd ei hastudiaeth hefyd at fuddion ehangach, oherwydd iddi arwain at newid i'r arfer ar draws y wlad gyfan yn ogystal â newid i bolisi Cymdeithas Ddeieteg Prydain. Mae'r newidiadau wedi cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â phob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Dywedodd Sian, **“Mae datblygu'r sylfaen dystiolaeth yn y maes hwn wedi bod yn fuddiol dros ben ac mae hyn wedi dylanwadu ar arloesedd mewn arferion clinigol, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae canfyddiadau'r astudiaeth wedi galluogi'r gwaith o ddatblygu canllawiau lleol a llywio'r gwaith o wella polisi ac arferion cenedlaethol yn ogystal â'r posibilrwydd o agor y drws i ragor o ymchwil yn y maes hwn. “Yn bwysicaf oll, fodd bynnag, mae'r gwaith wedi grymuso cleifion a'u teuluoedd, ac wedi gwellaansawdd eu bywydau. Maent yn gallu bwyta'r un bwyd, cymdeithasu a chael cymorth gan weithwyr proffesiynol i wneud dewis. “Roeddem ni'n dymuno creu diwylliant lle gallai teuluoedd drafod yn agored y dewisiadau bwydo ymaent yn dymuno eu defnyddio gyda'u gweithiwr iechyd proffesiynol yn ogystal â sicrhau bod deietegwyr yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi'n broffesiynol i gynnig y dewis o fwyd wedi'i hylifo os ydynt o'r farn bod hynny'n briodol.”**⁶

Adlewyrchir profiad Sian yn y dystiolaeth

Dadansoddodd Gerrish et. al (2013) dri maes o effaith swyddi nyrs ymgynghorol mewn astudiaeth yn Lloegr: arwyddocâd clinigol, arwyddocâd proffesiynol ac arwyddocâd sefydliadol, â phob maes yn cynnwys tri i bedwar dangosydd o effaith. Canfu'r astudiaeth bod pob nyrs ymgynghorol wedi dangos rhywfaint o dystiolaeth o effaith ym mhob un o'r tri maes.⁷

Yn ôl awduron yr astudiaeth:

“The impact on physical and psychological symptoms was evident in patients where NCs [nurse consultants] were directly involved in their care, for example one-to-one consultations, but it was also evident indirectly through patient-focused services developed by NCs.

*“For example, through influencing healthcare commissioners, the stroke NC had developed continuing rehabilitation therapy services which had a positive impact on patients by improving their functional ability” (pp. 2297-98).*⁸

⁶ https://healthandcareresearchwales.org/sites/default/files/2021-01/Making_a_difference-impact_health_and_care_research_in_Wales_2020_small_cy_0.pdf

⁷ Kate Gerrish, Ann McDonnell a Fiona Kennedy, 'The development of a framework for evaluating the impact of nurse consultant roles in the UK', *Journal of advanced Nursing*, cyfrol 69 rhifyn 10 (Hydref 2013), tudalennau 2295-2308. Gerrish et al (2013)

⁸ Ibid.

Siaradodd RCN Cymru â llawer o nyrsys ymgynghorol eraill, gan gynnwys Nia Boughton, Nyrs Ymgynghorol ar gyfer Gofal Sylfaenol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

Gwella gofal cleifion, gwella bywydau

Fe wnaeth Nia Boughton, Nyrs Ymgynghorol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn BIP Betsi Cadwaladr, helpu claf yr oedd ei pherthynas â'i meddyg teulu, yn anffodus, wedi chwalu.

Roedd gan y claf symptomau lluosog, gan arwain at ansawdd bywyd gwael iawn, bron â methu gadael y tŷ ac nid oedd wedi bod yn y gwaith ers dros flwyddyn.

Llwyddodd Nia i weithio â hi a datblygu perthynas dda. Gan ei hasesu yn holistaidd, llwyddodd Nia i ddarganfod ei bod yn debygol iawn bod gan y claf broblemau parhaus yn gysylltiedig ag endometriosis yn effeithio ar ei phledren. Nid oedd erioed wedi derbyn triniaeth ar gyfer y menopos ac o'r herwydd roedd yn cael trafferth gyda gorbryder a symptomau cymalau lluosog a oedd wedi cael eu trin gyda phoenleddfwr cryf iawn yn unig yn y gorffennol.

Mae Nia wedi gweithio gyda'r claf am fisoedd i sefydlu trefn therapi adfer hormonau sydd wedi golygu bod ei hwyliau wedi gwella. Mae atgyfeiriad ymlaen ar gyfer therapi gwybyddol ymddygiadol a gynhyrchwyd gan Nia hefyd wedi galluogi'r claf i dderbyn triniaeth ar gyfer ei gorbryder, wrth i'r claf ddechrau rhoi'r gorau'n raddol i gymryd ei meddyginiaeth gwrth-gorbryder wedi hynny.

Dangosodd brawf gwaed yr oedd Nia wedi gofyn amdano fod gan y claf ddiffyg thyroid, yr aeth Nia ymlaen wedyn i ragnodi meddyginiaeth ar ei gyfer i'w ddatrys. Fe wnaeth poenau cymalau a blinder dwys y claf wella'n sylweddol o ganlyniad, ac fe wnaeth hefyd leihau'n ddramatig rhai o'r dulliau ymdopi nad oeddent yn iach yr oedd wedi eu datblygu trwy ysmegu ac yfed alcohol.

Meddai Nia Boughton:

“Pan adolygais y claf yn ddiweddar, roedd wrth ei bodd i'm hysbysu ei bod hi newydd gael cyfweiliad llwyddiannus am swydd a'i bod bellach yn dychwelyd i gyflogaeth. Mae'n bwriadu defnyddio'r cynnydd bach i incwm yr aelwyd i dalu am ei gwyliau tramor cyntaf ers blynyddoedd lawer. Mae hyn yn rhywbeth nad oedd y claf erioed yn meddwl y byddai ganddi'r hyder neu'r lefel o iechyd i'w wneud eto.”

Gan siarad am swyddogaeth y nyrs ymgynghorol, ychwanegodd Nia Boughton:

“Rwyf i wrth fy modd yn bod yn nyrs ac rwy'n gwbl angerddol am ofal nyrsio o ansawdd uchel. Roeddwn i'n teimlo'n gryf fy mod i eisiau dylanwadu ar strategaeth a blaenoriaethau ar gyfer gweddnewid gofal a gwasanaethau, ond doeddwn i ddim eisiau camu i ffwrdd o ofal cleifion fel sy'n aml yn digwydd mewn swyddi nyrsio uwch. Mae'r swydd nyrs ymgynghorol yn cynnig y gorau o'r ddau fyd.”



Fel y gellir gweld yn y papur briffio hwn, gall GIG Cymru elwa o arbenigedd nyrsys ymgynghorol o bob arbenigedd a maes nyrsio, gan gynnwys nyrsys ymgynghorol sy'n arbenigo mewn seicosis:

Achub bywydau trwy ymyrraeth gynnar mewn seicosis

Mae Norman Young yn Nyrs Ymgynghorol ac Arweinydd Gwasanaeth Clinigol ar gyfer Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis yn BIP Caerdydd a'r Fro. Mae hefyd yn Ddarlithydd Cyswllt Uwch i Brifysgol Caerdydd.



Mae seicosis yn ymddangos yn fwyaf cyffredin yn ystod y glasoed, â newidiadau amlwg i ddirnadaeth yr unigolyn ifanc o realiti yn arwain at rithweledigaethau, lledrithiau a meddyliau a lleferydd dryslyd. Yn sgil hynny, ceir ymyrraeth sylweddol ag addysg, cyflogaeth, a pherthnasoedd personol yr unigolyn ifanc. Mae canfod ac ymyrryd yn gynnar yn chwarae rhan sylweddol o ran gwella adferiad, achub bywydau a lleihau costau GIG, gofal cymdeithasol a phersonol.

Mae gan nyrsys ymgynghorol swyddogaeth strategol o ran llunio gwasanaethau, ymchwil, addysgu ac o ran darparu gwasanaethau clinigol. Gan fanteisio ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc, mae Norman wedi creu partneriaeth â chydweithwyr o fewn y GIG, Barnardo's ac awdurdodau lleol i arwain datblygiad 'Headroom', gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc 14- to 25 oed sy'n dioddef eu profiad cyntaf o seicosis.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio ar draws y trosglwyddiad o wasanaethau i blant a phobl ifanc i'r rhai ar gyfer oedolion, gan ddarparu drwy hynny gwasanaeth didor i bobl ifanc wrth iddynt dyfu.

Mae Headroom wedi tyfu i fod yn dîm amlddisgyblaeth o 20 o bobl, gan gynnwys cymorth cyflogaeth a gweithwyr cymorth cymheiriaid, yn ogystal â staff Barnardo's, y GIG ac awdurdodau lleol. Mae Headroom yn bartner allweddol gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl a Phrifysgol Caerdydd, gan gefnogi gwaith ymchwil a fydd yn gwella bywydau pobl ifanc.

Mae Norman yn gweithio fel meddyg ymgynghorol i bobl ifanc yn Headroom, gan oruchwylio rheolaeth glinigol cyfnodau gofal cyfan, yn ogystal â swyddogaethau ymchwil ac addysgu gyda Phrifysgol Caerdydd. Mae Norman yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o greu uwch-ymarferwyr nyrsio ym maes iechyd meddwl.

“Mae'r swydd ymgynghorol hon wedi galluogi partneriaethau ac arferion cost-ffeithiol arloesol i ddatblygu ar gyfer gwelliant pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae cefnogi'r fframwaith uwch-ymarferydd nyrsio yn allweddol i ddatblygu arweinyddiaeth nyrsio clinigol, arloesedd a phoblogaeth iachach.”

Siaradodd RCN Cymru â Marianne Jenkins, a siaradodd am ei swydd fel nyrs ymgynghorol yn datblygu model gweithlu ar gyfer uwch-ymarferwyr nyrsio:

Datblygu timau uwch-ymarferwyr nyrsio

Mae Marianne Jenkins yn gweithio fel Ymarferydd Nyrsio Ymgynghorol ar gyfer Gofal Brys ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Agwedd allweddol ar ei swydd fu datblygu'r swydd uwch-ymarferydd nyrsio ym maes Meddygaeth Frys ac Acíwt yn y bwrdd iechyd.

Meddai Marianne Jenkins:

“Roedd 2.5 o Uwch-ymarferwyr Nyrsio mewn swyddi a oedd wedi bod yn gweithio'n rhan o'r rota nyrsio i gefnogi lefelau staffio drwy'r pandemig â dychweliad i'r swydd Uwch-ymarferydd Nyrsio wedi'i gynllunio ym mis Ionawr 2022. Ochr yn ochr â hyn, roedd gwaith trawsnewid o fewn yr adran i wella gwasanaethau a llif cleifion.

“Gan weithio gyda'r nyrs arweiniol a'r arweinydd trawsnewid, datblygais fodel gweithlu ar gyfer cyflwyno uwch-ymarferwyr nyrsio i'r Adran Frys Bediatrig, y Gwasanaeth Gofal Meddygol Argyfwng ar yr Un Diwrnod a dychwelyd ac ehangu'r tîm Uwch-ymarferwyr Nyrsio presennol i'r Adran Frys i Oedolion. Datblygais fframwaith o arferion i gefnogi eu dychweliad i'r swydd yn ogystal â datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer Uwch-ymarferwyr Nyrsio newydd. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen sefydlu pythefnos o hyd ar gyfer staff newydd i roi'r sgiliau sylfaenol iddynt mewn asesu cleifion clinigol.

“Ceir diwrnod astudio misol i'r Uwch-ymarferwyr Nyrsio rannu'r hyn y maent wedi ei ddysgu, yn ogystal ag addysgu meddygon ymgynghorol arbenigol i gefnogi dysgu parhaus ehangach. Ceir tîm o 13 o Uwch-ymarferwyr Nyrsio yn eu swyddi bellach yn cwmpasu pob un o'r tri maes: pum Uwch-ymarferydd Nyrsio uwch, tri Uwch-ymarferydd Nyrsio iau a phum Uwch-ymarferydd Nyrsio da hyfforddiant. Ym maes pediatreg, mae hyn wedi cefnogi'r gweithlu ehangach a chyflwyniad Uned Penderfyniadau Clinigol ar gyfer plant sydd angen cyfnodau hwy o arsylwi a gofal yn yr Adran Frys Bediatrig.




“Mewn Gofal Meddygol Argyfwng ar yr Un Diwrnod, mae wedi cefnogi'r gofal a llif cleifion gwell trwy amseroedd aros llai am asesiadau ac ymchwiliadau (fel pigladau yn y lwynau). Ar ôl cyflwyno'r tîm Uwch-ymarferwyr Nyrsio, bu cymorth ychwanegol i'r Rhith-ward gynyddu capasiti i gleifion aros gartref tra bod ymchwiliadau ac asesiadau parhaus yn cael eu trefnu. Yn fwy swydd i, rwy'n gallu darparu gofal cleifion uniongyrchol ar draws y meysydd hyn yn ogystal ag addysgu a goruchwyliaeth ar gyfer yr Uwch-ymarferwyr Nyrsio dan hyfforddiant.”

O ddarllen am brofiadau Marianne, Norman, Nia a Sian, mae'n amlwg bod nyrsys ymgynghorol yn chwarae rhan allweddol o ran gwella gofal cleifion yng Nghymru. Fodd bynnag, a oes digon o bobl fel Marianne a Norman, Nia a Sian yn gweithio yn y GIG ar hyn o bryd?

A oes gan Gymru ddigon o nyrsys ymgynghorol?

Mae nyrsys ymgynghorol yn cyflawni swyddogaeth hanfodol yn y GIG. Fodd bynnag, nid oes digon ohonynt yng Nghymru ar hyn o bryd.

Ffigur 2 Nifer y nyrsys ymgynghorol (cyfwerth ag amser llawn), 2005-2024



Ffynhonnell: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Staff/Non-Medical-Staff/nursingmidwiferyandhealthvisitingstaff-by-grade-areaofwork-year>

*Ffigur 2024 o 31 Mawrth 2024

Bu cynnydd cyflym i nifer y nyrsys ymgynghorol rhwng 2007 a 2008. Fodd bynnag, fel y mae Ffigur 2 yn ei ddangos, gostyngodd nifer y nyrsys ymgynghorol yn sydyn rhwng 2009 a 2010, ac er bod y nifer wedi cynyddu'n araf yn y blynyddoedd diwethaf, nid yw wedi dychwelyd i lefelau 2007 eto.

Cymru gyfan

Ceir rhai bylchau o ran cynllunio'r gweithlu yn GIG Cymru. Mae hyn yn arbennig o wir o ran nyrsys ymgynghorol, lle mae swyddi wedi cael eu sefydlu a'u terfynu yn hanesyddol yn ddibynnol ar arian sefydlu, pwysau lleol, a buddsoddiad o'r trydydd sector.

Er i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid cychwynol ar gyfer nyrsys ymgynghorol yn uniongyrchol ar ddechrau datganoli, mae'r cyllid hwn wedi dod i ben ers tro, a chyfrifoldeb byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yw cyllid bellach. Mae byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn GIG Cymru yn aml yn cymryd golwg fyrdymor o ran cynllunio gwasanaethau, gan arbed arian trwy ddadsefydlu swyddi heb ystyried gwerth hirdymor buddsoddi yn y gweithlu neu'r goblygiadau hirdymor i iechyd y boblogaeth. Gellir priodoli'r nifer isel o nyrsys ymgynghorol o'i chymharu â 2007 i fethiant i ddisodli nyrsys ymgynghorol sy'n ymdeol oherwydd cyfyngiadau cyllideb.

Ers 2017, bu cynnydd cyson ond araf i nifer y nyrsys ymgynghorol, ond mae cynnydd yn amrywio'n sylweddol o un bwrdd iechyd i'r llall, ac o un arbenigedd i'r llall.

Cyflwynwyd nifer ofynnol o 55 o nyrsys ymgynghorol gan Proffesiynau Iechyd Cymru, nad yw'n bodoli bellach. Er bod y gofyniad hwn yn amhriodol bellach, mae'n dangos bod cynsail ar gyfer cyflwyno dangosyddion cenedlaethol i bennu nifer y nyrsys ymgynghorol sy'n gweithio yng Nghymru.

Fesul bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd


Mae nifer y nyrsys ymgynghorol yn amrywio ledled Cymru a gellir gweld amrywiadau bach o un flwyddyn i'r nesaf yn y mwyafrif o fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd. Nid yw byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i gyd yn rhannu'r un brwdfrydedd tuag at y swydd nyrs ymgynghorol.

Mae Betsi Cadwaladr wedi buddsoddi mewn nyrsys ymgynghorol yn y blynyddoedd diwethaf, a gellir gweld cynnydd bach hefyd mewn rhai byrddau iechyd fel Bae Abertawe. Fodd bynnag, mae'r darlun cyffredinol yn un siomedig iawn. O fis Mawrth 2024, mae byrddau iechyd Powys a Chwm Taf Morgannwg, yn eu trefn, yn cyflogi dim ond 1.6 a 2.0 o nyrsys ymgynghorol (cyfwerth ag amser llawn). O ystyried y rhan bwysig y mae nyrsys ymgynghorol yn ei chwarae o ran sicrhau gofal diogel ac effeithiol i gleifion, mae'n siomedig bod cyn lleied ohonynt yn cael eu cyflogi gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd. Fel y dangoswyd yn flaenorol yn y papur briffio hwn, mae nyrsys ymgynghorol yn arbenigo mewn meysydd nyrsio amrywiol, anabledau dysgu i iechyd plant, ac mae pob nyrs ymgynghorol yn cynnig casgliad unigryw o sgiliau a phrofiad. Dylai pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd gynyddu niferoedd cyfwerth ag amser llawn priodol eu nyrsys ymgynghorol felly, i adlewyrchu'r amrywiaeth o arbenigeddau sy'n bodoli ym maes nyrsio ymgynghorol.

Hefyd, mae StatsCymru yn hawlio ar ei wefan nad yw'r eitem ddata hon yn berthnasol i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, ar gyfer pob blwyddyn, sy'n awgrymu nad yw'r ymddiriedolaeth erioed wedi cyflogi unrhyw nyrsys ymgynghorol.⁹ Codwyd amheuan difrifol ynghylch cywirdeb hyn, fodd bynnag, gan fod RCN Cymru yn deall bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cyflogi nyrs ymgynghorol ym maes iechyd meddwl. Mae'n hanfodol bod GIG Cymru, StatsCymru, ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn sicrhau bod yr holl ddata sydd ar gael yn gyhoeddus ar y gweithlu nyrsio ymgynghorol yn gywir ac yn gyfredol. Mae hyn yn hollbwysig i sicrhau cynllunio gweithlu cywir.

⁹ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Staff/Non-Medical-Staff/nursingmidwiferyandhealthvisitingstaff-by-grade-areaofwork-year>

Ffigur 3 Nifer y nyrsys ymgynghorol (cyfwerth ag amser llawn) fesul bwrdd/ymdiriedolaeth iechyd, 2022-2024



Ffynhonnell: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Staff/Non-Medical-Staff/nursingmidwiferyandhealthvisitingstaff-by-grade-areaofwork-year>

*Ffigur 2024 o 31 Mawrth 2024

Fesul maes nyrsio


Mae bod â nyrsys ymgynghorol ar draws byrddau ac ymdiriedolaethau iechyd yn galluogi rhannu arferion da a threialon, ac ar gyfer cynyddu graddfa prosiectau, sicrhau cydraddoldeb daearyddol.

Yn y blynyddoedd diwethaf, y ddau faes y mae swyddi nyrsys ymgynghorol wedi derbyn y mwyaf o fuddsoddiad ynddynt fu gwasanaethau oedolion a chyffredinol a gwasanaethau cymunedol. Ar hyn o bryd, ceir 18.5 o nyrsys ymgynghorol cyfwerth ag amser llawn ac 13.1 o nyrsys ymgynghorol cyfwerth ag amser llawn yn y ddau faes hyn, yn eu trefn. Fodd bynnag, hyd yn oed yma, roedd niferoedd y nyrsys ymgynghorol a oedd yn gweithio yn y meysydd priodol hyn o nyrsio ymgynghorol yn uwch yn 2009 o'i chymharu ag yn 2024, fel y dangosir yn Ffigur 4 isod.

Hefyd, mae'n eglur bod gwahaniaeth enfawr o ran nifer y nyrsys yr ymgynghorol yn ddibynnol ar y maes nyrsio. Nid oes unrhyw nyrsys ymgynghorol ym meysydd nyrsio newyddenedigol, nyrsio ysgol na gofal critigol, a dim ond un ym maes anabledau dysgu.¹⁰

¹⁰ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Staff/Non-Medical-Staff/nursingmidwiferyandhealthvisitingstaff-by-grade-areaofwork-year>

Ffigur 4 Nifer y nyrsys ymgynghorol yng Nghymru fesul maes nyrsio



Ffynhonnell: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Staff/Non-Medical-Staff/nursingmidwiferyandhealthvisitingstaff-by-grade-areaofwork-year>

*Ffigur 2024 o 31 Mawrth 2024

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'n gywir yn ei Rhaglen Plant Iach Cymru bod y “dystiolaeth sy’n dod i’r amlwg yn dangos bod buddsoddi ym mlynnyddoedd cynnar bywyd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar iechyd plant”.¹¹ Mae nyrsys pediatrig, nyrsys newyddenedigol a nyrsys ysgol yn chwarae rhan hollbwysig o ran darparu gofal diogel ac effeithiol i fabanod a phlant, a thrwy hynny, o ran helpu i sicrhau y gall pob plentyn gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae’n siomedig iawn felly nad oes gan Gymru unrhyw nyrsys ymgynghorol yn gweithio ym maes nyrsio newyddenedigol, dim mewn nyrsio ysgol a lefelau mor isel o ran nyrsys pediatrig sy’n gweithio ar sail cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn yn dod yn fwy eglur fyth o’i gymharu â nifer y nyrsys ymgynghorol sy’n gweithio ym meysydd nyrsio oedolion a chyffredinol (18.5 cyfwerth ag amser llawn). Mae profiad Sian Thomas yn cyfeirio at y gwasanaeth cadarnhaol y gall nyrsys ymgynghorol ei wneud o ran gwella canlyniadau cleifion i blant; byddai cyflogi mwy o nyrsys ymgynghorol yn gweithio ym maes iechyd plant a babanod, er enghraifft, yn cyfrannu ymhellach at sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

¹¹ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-03/trosolwg-or-rhaglen-plant-iach-cymru.pdf>, t. 3.

Yn y 14 mlynedd ddiwethaf, nid yw nifer y nyrsys ymgynghorol anableddau dysgu yn GIG Cymru erioed wedi bod yn uwch nag un. Byddai buddsoddi mewn nyrsys ymgynghorol anableddau dysgu yn sicrhau bod gan Gymru yr adnoddau ar gael i ddarparu arweinyddiaeth arbenigol ac i addysgu'r genhedlaeth nesaf o nyrsys anableddau dysgu. Byddai'n gwella gwybodaeth y gweithlu cyffredinol ac yn cynhyrchu gwaith ymchwil arloesol, gwelliant gwasanaethau a datblygiad a gweithrediad ar lefel strategol. Byddai nyrsys anableddau dysgu ychwanegol yn gweithio ar feysydd allweddol fel gwella canlyniadau iechyd a chynorthwyo'r rhai ag ymddygiadau cymhleth yn unol â Chynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru¹². Mae buddsoddi mewn nyrsys ymgynghorol anableddau dysgu yn gyfystyr â buddsoddi yn y system gyfan ac ymwreiddio pwysigrwydd unigolion ag anableddau dysgu yn briodol yn gwbl ganolog i faes iechyd a gofal cymdeithasol.

Ceir diffyg amlwg o gynllunio olyniaeth ar gyfer swyddi nyrsys ymgynghorol. Heb gynllunio olyniaeth a llwybr gyrfaol eglur o fyfyrwr i nyrs ymgynghorol, mae swyddi yn aros yn wag, a bydd y dylanwad unigryw ac arbenigol ar ofal cleifion yn parhau i fod yn absennol.

Ceir diffyg eglur o ddull seiliedig ar dystiolaeth i benderfynu ar nifer y nyrsys ymgynghorol sydd ei hangen ar arbenigedd penodol. Nid oes gan grwpiau cleifion sy'n derbyn gwasanaeth dan arweiniad nyrsys yn bennaf, fel gofal diabetes, unrhyw nyrsys ymgynghorol o gwbl.

Hefyd, ar adegau, gall swyddogaethau a chyfrifoldebau nyrsys ymgynghorol ymddangos yn aneglur i gleifion, yn enwedig o ystyried y teitl Ymarferydd Nyrsio Ymgynghorol. I sicrhau eglurder i gleifion, dylai Llywodraeth Cymru a GIG Cymru weithio tuag at deitl swydd cyson, fel 'Nyrs Ymgynghorol – [arbenigedd]', ar gyfer yr holl nyrsys sy'n gweithio ar lefel ymgynghorol. Dylai hyn gael ei hysbysu gan gyngor a chyfarwyddyd y Prif Swyddog Nyrsio.

¹² Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022 i 2026 Llywodraeth Cymru: <https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-strategol-anabledd-dysgu-2022-i-2026-html>

Beth ddylai Llywodraeth Cymru ei wneud?

Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn nyrsys ymgynghorol o bob math ac ym mhob rhan o Gymru. Dylent ganolbwyntio'r buddsoddiad hwn ar eu meysydd blaenoriaeth fel Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, Gofal wedi'i Gynllunio, Canser, Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu a CAMHS. Mae angen i'r buddsoddiad hwn sefydlu llwybrau cynnydd gyrfaol ymarferol sydd ar gael i nyrsys sy'n dymuno defnyddio eu holl sgiliau a gwybodaeth ar draws conglfeini ymarfer ymgynghorol i gefnogi cyflogwyr yn strategol, tra'n cyfrannu at ymchwil, addysg a gofal clinigol cleifion.

Byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd sydd yn y sefyllfa orau i gynnal asesiad lleol o anghenion gwasanaeth. Byddai o gymorth i AaGIC ddatblygu dull neu ganllawiau seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi'r broses cynllunio'r gweithlu hon ac felly nodi'r niferoedd sydd eu hangen (yn debyg i sut y cyfrifir y niferoedd gofynnol o fydwragedd ymgynghorol ar hyn o bryd). Byddai hyn hefyd yn caniatáu newid strategol i'r ddarpariaeth o ofal yn ogystal â chyflenwad cynaliadwy o fyfyrwr nyrsio i nyrs ymgynghorol. Dylid defnyddio'r dull hwn yn lleol i benderfynu ar y nifer ddelfrydol o nyrsys ymgynghorol.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw penderfynu ar bolisi iechyd ar lefel genedlaethol, i ddarparu cyllid i GIG Cymru i sicrhau gweithrediad effeithiol o bolisi, ac i fonitro cynnydd ar lefel genedlaethol. Fel y cyfryw, mae RCN Cymru yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno rhaglen genedlaethol, â dangosyddion cenedlaethol, i sicrhau bod penderfyniad lleol ar y nifer ddelfrydol o nyrsys ymgynghorol ledled Cymru wedi cael ei wneud a'i roi ar waith. Byddai rhaglen o'r fath yn helpu i alluogi Llywodraeth Cymru i fonitro, cydgysylltu ac arwain cynnydd ar lefel genedlaethol.

I gyflawni hyn, mae RCN Cymru o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau canlynol:

PWYNT GWEITHREDU 1:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau, ar draws GIG Cymru, nod nifer ddelfrydol o swyddi nyrsys ymgynghorol ym mhob arbenigedd i ddiwallu angen cleifion.

PWYNT GWEITHREDU 2:

Dylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo AaGIC i gynnal dadansoddiad o'r bylchau yn y gweithlu nyrsio ymgynghorol presennol. Dylai hwn gyd-fynd â Fframwaith Proffesiynol ar gyfer Ymarfer Clinigol Estynedig, Uwch ac Ymgynghorol yng Nghymru¹³ AaGIC.

PWYNT GWEITHREDU 3:

Dylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo AaGIC i ddatblygu canllawiau seiliedig ar dystiolaeth i alluogi byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i gwmpasu anghenion y boblogaeth yn rheolaidd a darganfod nifer y nyrsys ymgynghorol y mae pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd eu hangen.

Dylai AaGIC sicrhau bod ei waith cynllunio'r gweithlu a chomisiynu addysg yn adlewyrchu hyn.

¹³ <https://aagic.gig.cymru/files/enhanced-advanced-and-consultant-framework/>

PWYNT GWEITHREDU 4:

Dylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo AaGIC i weithio gyda byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i ddatblygu llwybr gyrfaol o fyfyrwr nyrsio i nyrs ymgynghorol.

Mae'n rhaid hyrwyddo hwn ym mhob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd i sicrhau bod swyddi nyrsio ymgynghorol yn cael eu datblygu a'u llenwi pan fyddant yn wag. Byddai hyn yn sicrhau parhad gofal cleifion.

Dylai AaGIC ddatblygu dull cynllunio'r gweithlu seiliedig ar dystiolaeth yn seiliedig ar angen y boblogaeth. Dylai AaGIC hefyd sicrhau bod ei Gynllun Gweithlu Nyrsio Strategol¹⁴ yn manteisio ar y dull hwn i benderfynu ar y nifer ddelfrydol o nyrsys ymgynghorol a chefnogi datblygiad y nyrsys hynny.

PWYNT GWEITHREDU 5:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan nyrsys ymgynghorol lais cryf, o fewn y GIG trwy Ddatganiadau Ansawdd¹⁵ sefydliadau ac o fewn Llywodraeth Cymru (yn enwedig trwy Brif Swyddog Nyrsio Cymru).

¹⁴ <https://aagic.gig.cymru/gweithlu/cynllun-gweithlu-nyrsio-strategol/>

¹⁵ Rhan 2, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2020/1/part/2/enacted/welsh>; Canllawiau Statudol y Ddyletswydd Ansawdd 2023 a Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023: <https://www.llyw.cymru/y-ddyletswydd-ansawdd-yng-ngofal-iechyd>